# HYSBYSIAD ETHOLIAD

# Etholiad y Senedd

# Ar gyfer Etholaeth Pen-y-Bont Bro Morgannwg

1. Cynhelir etholiad i enwebu Aelodau i wasanaethu yn y Senedd dros etholaeth Pen-y-Bont Bro Morgannwg.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU, neu yn electronig drwy nominations@valeofglamorgan.gov.uk o 10am, Dydd Gwener 27 Mawrth 2026 tan 4pm, Dydd Iau 9 Ebrill 2026.

3. Gall ffurflenni enwebu gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) ond heb fod yn hwyrach na 4pm, Dydd Iau 9 Ebrill 2026 neu yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod ond heb fod yn hwyrach na 4pm, Dydd Iau 9 Ebrill 2026.

4. Os ymleddir yr etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal ddydd Iau 7 Mai 2026.

5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos, Dydd Llun 20 Ebrill 2026. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.

6. Gellir talu'r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, drwy dendr cyfreithiol, cerdyn credyd/debyd, trosglwyddiad BACS, neu drwy ddrafft banc o ddrôr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig.

7. Rhaid i geisiadau, diwygiadau neu gansladau pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU erbyn 5pm, Dydd Mawrth 21 Ebrill 2026.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU erbyn 5pm, Dydd Mawrth 28 Ebrill 2026.

   Rhaid i geisiadau brys i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU erbyn 5pm, Dydd Iau 7 Mai 2026.

**Datganiad cyflwyno'n electronig**

9. Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

10. Y cyfeiriad e-bost i gyflwyno enwebiadau yw nominations@valeofglamorgan.gov.uk. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau a/neu wiriadau anffurfiol. Dylai'r pwnc gynnwys enw'r ymgeisydd a'r blaid gysylltiedig (os yw'n berthnasol).

11. Byddem yn eich cynghori'n gryf i wirio bod eich papurau enwebu wedi ein cyrraedd yn ddiogel drwy ffonio 01446 709304.

    Sylwer:
    Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel y bo'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau'n derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

    Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad am ei benderfyniad ynghylch a yw enwebiad yn ddilys ai peidio.

    Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau'n electronig, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol - Rachel Starr ar 01446 709304.

**ROB THOMAS**
**SWYDDOG CANLYNIADAU**
**DYDDIAD: 27 MAWRTH 2026**

Printed and published by the Returning Officer, Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan. CF63 4RU